


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**<u>Taith blwyddyn 5 i Langorse – Ebrill 24ain – 25ain:</u>**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Dyma fwy o wybodaeth i chi ar gyfer ein taith i Langorse:

- Byddwn yn gadael yr ysgol tua **10:00** ar y dydd Llun. Bydd angen pecyn cinio ar y disgyblion ar gyfer y daith yno os gwelwch yn dda. (Byddwn yn trefnu pecynnau cinio ar gyfer rheiny sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim.)
- Gall y disgyblion wisgo dillad eu hunain i'r ysgol ar y dydd Llun.
- Bydd angen digon o ddillad cynnes ar bob un, gan gynnwys côt law.
- **Bydd y disgyblion yn mynd ar geffylau felly, os oes alergedd gyda nhw, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda.**
- Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod **enw ar bob eitem**, gan gynnwys tywelion.
- Bydd angen sach gysgu a chlustog ar bob un.
- Does dim angen iddynt ddod ag unrhyw arian gyda nhw ar gyfer y daith.
- Os ydy'r disgyblion yn dioddef o asthma, **rhaid** iddynt ddod â phwmp gyda nhw. Gwnewch yn siŵr bod enw ar y pwmp asthma os gwelwch yn dda.
- Os oes unrhyw foddion gyda'ch plentyn, gan gynnwys tabledi teithio, rhaid sicrhau bod rhain yn cael eu rhoi i ni ar y bore dydd Llun. (Rhaid sicrhau bod enw ar bob eitem a bod llythyr yn esbonio beth i'w wneud a phryd i roi'r moddion, wedi'i lofnodi gan riant.)
- Does dim hawl gan unrhyw un i ddod â 'straighteners' gyda nhw.
- Does dim angen ffonau symudol na unrhyw offer trydanol chwaith.
- Byddwn yn cyrraedd yn ôl yn yr ysgol cyn 3:30 ar y dydd Mawrth.
- Bydd angen i bawb ddychwelyd y ffurflen feddygol erbyn **<u>dydd Gwener, Mawrth 17eg</u>** os gwelwch yn dda, fel ein bod ni'n gallu cwblhau'r holl waith papur angenrheidiol.

**Os nad ydych chi wedi talu gweddill yr arian eto, gofynnwn yn garedig am yr holl arian erbyn <u>dydd Llun, Ebrill 17eg</u> os gwelwch yn dda.**

Os oes unrhyw gwestiwn gyda chi am y daith, cysylltwch gyda ni drwy swyddfa'r ysgol.

Diolch, Mrs Dalgleish a Miss W. Williams




Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB
Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**<u>Year 5 Llangorse Trip – April 24th-25th:</u>**

Dear Parent / Guardian,

Here is some more information about the trip to Llangorse:

- We will be leaving the school about **10am** on the Monday. The pupils will need a packed lunch for the journey please. (Those who are eligible for Free School Meals will be provided for.)
- The pupils can wear their own clothes to school on the Monday.
- Pupils will need enough warm clothes, including a raincoat.
- **The pupils will be going horse riding so, if they have an allergy, please let us know.**
- We ask you kindly to ensure that there is a **name on each item of clothing**, including the towel.
- Pupils will need to bring a sleeping bag and a pillow with them.
- Pupils will not need to bring any money with them.
- If your child suffers from asthma, he/she **must** bring their pump with them. Please ensure that there is a name on each pump.
- If your child has any medicine, including travel sickness tablets, please ensure that these are handed to us on the Monday morning. Again, please ensure that there is a name on each item along with a letter explaining when to give the medicine, signed by a parent / guardian.
- Straighteners are not allowed in Llangorse.
- **No mobile phones or electrical equipment on the trip please.**
- We will be back in school before 3:30 on the Tuesday.
- We will need to receive the attached medical form by **Friday, March 17th** please, in order for us to complete the necessary paper work.

**If you haven't already paid in full, the rest of the money will need to be paid by <u>Monday, April 17th</u> please.** If you're unsure about the amount you have remaining, please contact the school office.

If you have any further questions about the trip, please contact us through the school office.

Diolch, Mrs Dalgleish a Miss W.Williams